Arddangosfa Millennium Falcon i agor yng



Credyd: Shutterstock

Mewn galacsi ymhell, beth i ffwrdd o Ddoc Penfro – bydd hanes adeiladu y llong ofod eiconig yn cael ei adrodd diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Y Millennium Falcon yw llong ofod y smyglwr Han Solo a'i gyfaill Chewbacca y Wookie yn y saga ffilmiau Star Wars.

Adeiladwyd y model maint-llawn cyntaf o'r llong ofod mewn sied awyrennau o'r Ail Ryfel Byd yn Noc Penfro yn 1979 ac. ar y pryd, hwn oedd y gyfrinach waethaf yng Ngorllewin Cymru. Ymddangosodd y model yn y ffilm *The Empire Strikes Back* a enillodd gwobr Oscar.

Bydd hanes adeiladu y Millennium Falcon gan grefftwyr o gwmni peirianneg lleol yn cael ei adrodd mewn arddangosfa newydd, diolch i fuddsoddiad o £8,000 gan y Gronfa Treftadaeth.

Hanes Star Wars

Canolfan Dreftadaeth Doc Penfro fydd cartref yr arddangosfa barhaol a bydd modd cerdded o amgylch yr arddangosfa y bydd yn adrodd y straeon gyda ffotograffau, ffilm, propiau a gwisgoedd. Bydd Mark Williams, arbennigwr Star Wars lleol yn goruwchwylio'r gwaith o greu yr arddangosfa.

"Hwn oedd y gyfrinach waethaf yn hanes Doc Penfro – roedd pawb yn y dref yn gwybod eu bod yn adeiladu UFO yn y sied.” Cofia Gareth Mills, sy'n un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Doc Penfro. ”Mae'r stori honno'n rhan bwysig o gof byw'r dref a bydd yr arddangosfa yn hwb sylweddol i Ddoc Penfro”

> "Rwy'n gobeithio y bydd yr arddangosfa yn dod yn gyrchfan newydd i gefnogwyr drwy bedwar ban y byd.”
>
> *Lynwen Brennan, Is-lywydd Gweithredol a Rheolwr Cyffredinol Lucasfilm*

Mae Lynwen Brennan, sy'n frodor o Sir Benfro, yn Is-lywydd Gweithredol a Rheolwr Cyffredinnol Lucasfilm. "Rwyf wrth fy modd y bydd y foment a'r lle gwych yma'n hanes Star Wars yn cael eu cofnodi a'u cadw," meddai Brennan.

"Rwy'n falch fod llong mor eiconig wedi'i hadeiladu yn y dref lle cafodd fy Mam ei geni ac yn y sir lle cefais fy magu, ac rwy'n gobeithio y bydd yr arddangosfa yn dod yn gyrchfan newydd i gefnogwyr ledled y byd."

Mae disgwyl i'r arddangosfa agor yng nghanol 2022.


Ariannu eich prosiect trefadaeth

Os oes gennych chi brosiect treftadaeth yng Nghymru yr hoffech ei ariannu, mae rhagor o wybodaeth am ein rhaglen ariannu £3,000 i £10,000 ar gael yma.



efyd mewn ...

Hyde Park Picture House Leigh Harrison



Interior of Royal Polytechnic Cinémathèque Française

University of Westminster's Regent Street Cinema restoration to go ahead thanks to £1.5million



Patron John Hurt OBE outside Cinema City Norwich

Cinema City charity awarded grant to preserve and share Norfolk's cinema heritage